# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Tachwedd 2020

Amser: 09.31 - 10.24

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6476

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau’r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Lucy Valsamidis (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol i'w sifftio ac sy'n awr yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 2.1 SL(5)658 – Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)661 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)666 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

**5.2 SL(5)652 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020**

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

**5.3 SL(5)660 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Papurau i'w nodi

**6.1 Llythyr gan y Prif Weinidog: Hygyrchedd a dealltwriaeth y cyhoedd o reoliadau'r Coronafeirws yng Nghymru**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

**6.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24A, datganodd David Melding fuddiant mewn perthynas ag Eitem 6.2.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**6.3 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog a bod Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 wedi'i wneud.

**6.4 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 6.5 Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ac, mewn sesiwn breifat, cytunwyd i dderbyn y cynnig o friff technegol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

### 6.6 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Masnach - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach a chytunodd arno.  Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 9 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a chytunodd arno.  Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 10 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

## 11 Bil Marchnad Fewnol y DU - y wybodaeth ddiweddaraf

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Bil Marchnad Fewnol y DU.